

Adroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol 2018-19



RHONDDA CYNON TAF



L.M.Adams

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu



S.Rees-Owen

*Cadeirydd y Pwyllgor
Craffu Plant a Phobl Ifainc*



R.Yeo

*Cadeirydd y Pwyllgor
Craffu Iechyd a Lles*



S.Bradwick

*Cadeirydd y Pwyllgor
Craffu Cynnal Gwasanaethau
Cyhoeddus, Cymunedau
a Ffyniant*



J. Williams

*Cadeirydd y Pwyllgor
Craffu Cyllid a Chyflawniad*

RHAGAIR

A minnau'n Gadeirydd ar y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, mae'n bleser gen i gyflwyno'r Adroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol ar gyfer 2018/19.

Bydd yr adroddiad yma'n dangos yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf a'r blaenoriaethau ar gyfer pob un o'r Pwyllgorau Craffu thematig, yn ogystal â nodi a yw'r pwyllgorau hynny wedi cyflawni'r canlyniadau ar gyfer eu meysydd gwaith allweddol unigol. Y llynedd, cyfeiriais at y gwelliannau a wnaethon ni er mwyn atgyfnerthu perchnogaeth y Pwyllgorau Craffu dros raglenni gwaith yn y dyfodol, yn ogystal â'r camau y dechreuon ni eu cymryd er mwyn ymgysylltu â'n trigolion a rhoi gwybod iddyn nhw am ein prosesau. Eleni, credaf ein bod wedi gweithio'n galetach i hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â Chraffu, ac rydyn ni wedi cyflawni'r canlynol: -

- Tudalen we [Craffu](#) (sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl mewn perthynas â rôl y Pwyllgorau Craffu, Rhaglenni Gwaith Craffu, erthyglau newyddion sy'n ymwneud â Chraffu a 'Blog' Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sy'n ychwanegu agwedd bersonol at waith y Cadeiryddion Craffu eu hunain); a
- [Protocol Siarad Cyhoeddus](#) sy'n nodi cyngor clir a chryno am yr hyn y gall ein preswylwyr ei ddisgwyl pe hoffon nhw gymryd rhan a siarad yn unrhyw un o'n Pwyllgorau Craffu;

Rydyn ni hefyd yn parhau i wneud cynnydd mewn meysydd eraill, megis rhoi mecanwaith adrodd mwy ffurfiol ar waith ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu. Bydd hyn yn galluogi pawb i dderbyn diweddariadau, rhannu gwybodaeth a chyfnewid syniadau. Rydyn ni'n dal i gynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, yr Is-Gadeiryddion a'u Haelodau Cabinet priodol i sicrhau bod y cyfathrebu dwyffordd yn parhau i yrru datblygiadau polisi ymlaen ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn dal i geisio ymgysylltu â'n preswylwyr trwy gynnal achlysuron Craffu yn y gymuned, ac rydyn ni wedi parhau i gynnal cyfarfodydd Craffu mewn lleoliadau gwahanol i'r Siambr, fel Canolfan Chwaraeon Abercynon a safle Bryn Pica. Byddwn yn parhau i fonitro effeithiolrwydd hyn yn y dyfodol ac yn ystyried ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wella cyfranogiad.

Yn ystod 2017/18 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad cenedlaethol o drefniadau craffu, gyda gwaith maes ym mhob ardal awdurdod lleol. Diben yr adolygiad oedd edrych ar sut mae ein trefniadau craffu yn 'addas ar gyfer y dyfodol' a pha mor barod ydyn ni i ymateb i heriau yn y dyfodol. Roedd hi'n galonogol bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi canfod bod trefniadau Craffu o fewn RhCT wedi cryfhau, ond dydy hyn ddim yn golygu y byddwn ni'n gorffwys ar ein rhwyfau o bell ffordd. Mae rhai o'r meysydd y mae angen eu gwella yn cynnwys;

- cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer swyddogaeth y Pwyllgorau Craffu;
- cynllunio gweithgareddau Craffu yn well; a
- gwelliannau i ddangos effaith gwaith Craffu.

Rydyn ni wedi llunio cynllun gweithredu sy'n ymateb i'r gwelliannau sydd eu hangen yn y meysydd yma. Mae'r cynllun, yn ogystal ag adroddiad gwreiddiol Swyddfa Archwilio Cymru, ar gael [yma](#).

Rydyn ni wedi gweithio'n galed i wella a chynnal ein cydweithrediad â phartneriaid allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae modd mesur hyn trwy ein trafodaethau a'n hymgysylltiad gweithredol â Chydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (10 awdurdod lleol sydd craffu ar ddatblygiadau Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd) a Chydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf (gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ymgymryd â gwaith craffu ar Fwrdd Gwasanaethau

Cyhoeddus Cwm Taf. Bydd RhCT yn arwain y gwaith hwn yn 2019/2020). Yn ogystal â hynny, mae gyda ni drefniant gweithgor craffu ar y cyd er mwyn craffu ar y swyddogaeth gwella ysgolion yng Nghonsortium Canol De Cymru. Mae hyn wedi cryfhau ein gwaith rhanbarthol yn y maes yma.

Yn dilyn hyfforddiant cychwynnol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel rhan o gyfnod sefydlu'r Aelodau yn 2017, mae'n fraint i mi gael y cyfle i gadeirio Gweithgor Craffu sydd wedi'i sefydlu i ddatblygu'r trefniadau Craffu yn Rhondda Cynon Taf tra'n adolygu'r gwaith o ddatblygu seilwaith i gefnogi cerbydau carbon isel yn y Fwrdeistref Sirol. Credaf y bydd y darn cyffrous yma o waith, sydd yn ei ddyddiau cynnar, yn dangos y rôl bwysig y mae'n rhaid i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ei chwarae er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cadw'r Ddeddf yma mewn cof wrth edrych i'r dyfodol. Cyfeirir yn fwy manwl at y gwaith yma yn adran y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Tudalennau XXX).

Credaf y bydd unrhyw gymhariaeth rhwng fy mlynnyddoedd cyntaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a heddiw yn dangos ein bod ni wedi gwneud gwelliannau o ran cynnwys, llwyth gwaith a'r effaith rydyn ni'n ei chael. Serch hynny mae angen i ni weithio'n galetach y flwyddyn nesaf i roi'r newidiadau y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u hawgrymu ar waith. Mae rhan annatod o'r gwelliannau yma a'n gallu i gyflawni newid pellach wedi cael ei gefnogi gan y newidiadau yn y cymorth a gaiff ei ddarparu gan Swyddogion trwy Uned Busnes y Cyngor. Cafodd y newidiadau yma eu rhoi ar waith dros y deuddeg mis diwethaf.

Hoffwn ddiolch i fy Is-gadeirydd, y Cynghorydd Sheryl Evans, yn ogystal â'r Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion eraill sydd wedi cyfrannu mewn modd llawn a chadarnhaol unwaith eto eleni.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.M.Adams
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

CYNNWYS

	Tudalennau
Crynodeb Gweithredol	5-15
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	16-20
Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	21-24
Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles	25-28
Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	29-33
Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad	34-37

Crynodeb Gweithredol

Gan fod yr Adroddiad Blynyddol llawn yn fanwl, nod y crynodeb canlynol yw bod yn hygyrch i gynulleidfa ehangach a galluogi darllenwyr i gael dealltwriaeth well o effaith Pwyllgorau Craffu'r Cyngor yn ystod 2018/19, yn ogystal â'r meysydd i'w gwella.

1. Adolygiadau Craffu a Gwblhawyd/Parhaus

Mae Tabl 1 yn nodi'r adolygiadau a gwblhawyd gan Bwyllgorau Craffu a'r argymhellion a gafodd eu gwneud (bydd y gwaith o roi'r rhain ar waith yn cael ei fonitro yn 2019/20). Mae e hefyd yn nodi'r adolygiadau hynny a gafodd eu cynnal o fewn blwyddyn gyfredol y Cyngor, a chaiff eu canlyniadau eu hadrodd yn 2019/20.

Y Maes a Adolygwyd a'r Pwyllgor Priodol	Rheswm dros yr Adolygiad	Allbwn yr Adolygiad	Gwybodaeth am Gyflawniad/Deilliannau
Cynllun Wardeiniaid Eira Gwirfoddol - Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	Pryder bod angen gwneud mwy i gefnogi cyfrifoldebau Cynllunio mewn Argyfwng y Cyngor drwy gyflwyno cynllun Wardeiniaid Eira Gwirfoddol.	Cytunodd y Cabinet ar bedwar argymhelliad - Cliciwch yma i weld yr ymateb yn llawn ynghyd â'r argymhellion	Lansio ymgyrch ' Cofiwch eich Cymdogion ' ar wefan y Cyngor i gefnogi gwaith ehangach y Cyngor wrth baratoi ar gyfer tywydd garw posibl yn ystod y gaeaf. Cliciwch yma i weld yr ymgyrch llawn.
Trefniadau Etholiadol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	Sicrhau bod barn Aelodau Lleol a rhanddeiliaid yn cael eu cofnodi a'u cyfleu mewn modd cynhwysfawr i Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.	Awgrymodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Cyngor Llawn y dylai'r cynigion fod yn amodol ar gyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn adlewyrchu barn Aelodau Lleol a rhanddeiliaid cyn i'r materion gael eu hystyried ymhellach gan y Cyngor Llawn.	Cafodd cynnig terfynol gan y Cyngor i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ei gyflwyno ar 26 Hydref 2018. Cliciwch yma i weld y cynigion terfynol.
Gwelyau i'r Henoed Bregus eu Meddwl (EMI) Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles	Diffyg gwelyau mewn cartrefi gofal nyrsio (gofal seibiant a gofal tymor hir) ac effaith colli gwelyau ar gyfer pobl hŷn sydd â Dementia mewn ysbytai, yn ogystal â chau wardiau yn Ysbyty George Thomas, Treorci,	Cafodd dau argymhelliad eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2019 i'w hystyried. Bydd y Cabinet yn ymateb i'r rhain yn ystod blwyddyn neaf y Cyngor. Cliciwch yma i weld yr adroddiad terfynol	Roedd y Pwyllgor Craffu yn awyddus i sicrhau bod yr argymhellion yn Natganiad Sefyllfa Marchnad Cwm Taf yn cael eu cyflawni, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hanelu at ddarpariaeth fwy arbenigol a'r angen am ragor o ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gofal

	ar yr argaeledd a'r dewisiadau o ran cartrefi gofal nyrsio.		cymhleth h.y. dementia a nyrsio dementia. Mae'r Pwyllgor Craffu yn cydnabod bod y gwaith yma'n adlewyrchu natur tymor canolig a thymor hir y rhaglen waith yn y maes yma ac, felly, rydyn ni'n cefnogi'r gofyniad am oruchwyliaeth barhaus gan y Pwyllgor Craffu er mwyn helpu i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud.
--	---	--	---

Adolygiadau Cyfredol a Pharhaus gyda chanlyniadau adroddedig yn 2019/20

Y Maes a Adolygwyd a'r Pwyllgor Priodol	Rheswm dros yr Adolygiad	Meysydd Allweddol y Gwaith Cyfredol	Gwybodaeth am Gyflawniad/Deilliannau
Ailgylchu mewn Ardaloedd Cymunedol - Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	Cafodd Gweithgor Craffu ei sefydlu i nodi lle mae modd gwneud gwelliannau i'r cyfraddau ailgylchu mewn ardaloedd lle nad yw llawer o bobl yn ailgylchu mewn ardaloedd cymunedol.	Cafodd dau faes gwaith allweddol eu nodi: - Gorfodi ac ailgylchu cymunedol o safbwynt swyddogaeth Landlordiaid Tai Cymdeithasol.	Ar ôl i'r gwelliannau yma gael eu cwblhau, rydyn ni'n rhagweld y bydd modd gwella dulliau casglu sbwriel a gwastraff swmpus mewn ardaloedd cymunedol fel bod modd gwella canlyniadau'r Cyngor mewn perthynas â deunydd ailgylchadwy.
Cofrestr o'r Busnesau Bwyd yn Rhondda Cynon Taf - Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad	Cyfeiriodd y Cyngor Llawn yr eitem at y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad i'w hystyried. Cliciwch yma i weld manylion y Rhybudd o Gynnig 24 Hydref 2018	Caiff cyfarfod cyntaf y Gweithgor Craffu ei gynnal ym mis Ebrill 2019, a bydd yn adolygu'r gofrestr fwyd gyfredol a'r ffordd mae'r Cyngor yn cefnogi ac yn hyrwyddo cwmnïau cynhyrchu bwyd lleol drwy gydweithio â busnesau bwyd lleol.	Bydd y Gweithgor Craffu yn llywio datblygiad y gofrestr fwyd gyfredol drwy weithio gyda busnesau bwyd lleol i nodi unrhyw ddatblygiadau pellach ar gyfer gwella. Bydd e'n adrodd ei argymhellion i'r Cabinet pan fydd y gwaith

			wedi dod i ben.
<p>Gweithgor Pecyn Cymorth Craffu - Datblygu Seilwaith i gefnogi cerbydau carbon isel - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu</p>	<p>Cafodd Fframwaith Craffu ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol ei greu er mwyn helpu i wneud penderfyniadau yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. "</p> <p>Rhybudd o Gynnig - 28 Chwefror 2018 - Cliciwch yma i weld manylion y Rhybudd o Gynnig.</p>	<p>Ystyried gofynion Craffu'r Cyngor ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ystyried datblygu isadeiledd er mwyn cefnogi Cerbydau Carbon Isel a fydd yn gwella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf.</p>	<p>Bydd y Gweithgor yn rhoi egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf ar waith drwy'r pum ffordd o weithio, sef, Integreiddio, Cydweithio, Meddwl am y tymor hir, Cynnwys ac Atal.</p>
<p>Hysbysiadau Cosb Benodedig am beidio â mynychu'r ysgol - Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifanc</p>	<p>Mae gwella presenoldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth i'r Cyngor a bydd y Pwyllgor Craffu yn cynnal adolygiad o'r defnydd cyfredol o Hysbysiadau Cosb Benodedig i asesu eu heffeithiolrwydd.</p>	<p>Bydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried sut mae'r Cyngor yn defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig ar hyn o bryd ac a yw hynny'n cyfrannu at unrhyw gynnydd mewn presenoldeb yn yr ysgol.</p>	<p>Caiff cyfarfod cyntaf y gweithgor yma ei gynnal yn ystod yr wythnosau nesaf, gydag argymhellion yn cael eu hadrodd ym mlwyddyn nesaf y Cyngor.</p>

2. Gwaith 'Cyn Craffu' yw'r enw ar y broses mae Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau ar gam cyn i'r penderfyniad gael ei wneud yn ffurfiol. Mae'r dull hwn yn fuddiol gan fod Aelodau sydd ddim yn rhan o'r Cabinet yn rhan o'r cam cyn penderfynu, ac mae'n ychwanegu gwerth at adroddiadau trwy ymgynghori ehangach. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r holl waith a'r ymgynghoriadau 'Cyn Craffu' a gafodd eu gwneud gan yr holl Bwyllgorau Craffu yn 2018/19 ac yn dangos sut rydyn ni wedi dylanwadu ar y penderfyniadau: -

Ymgynghoriad/Gwaith Cyn Craffu	Rheswm dros yr Ymgynghoriad/Gwaith Cyn Craffu	Gwerth Ychwanegol/Effaith	Tystiolaeth
PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU			
<p><u>Ymgynghori</u> Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu - Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd</p>	<p>Mae gofyn i bob un o Bwyllgorau Craffu priodol yr awdurdodau cyfansoddol drafod creu'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn i hynny gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.</p>	<p>Cytunodd y Pwyllgor Craffu y dylid creu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar waith Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) mewn cydweithrediad â'r naw awdurdod cyfansoddol arall. Roedd hefyd yn cymeradwyo'r gwaith o greu Cyd-bwyllgor Craffu.</p>	<p>Gellir gweld yr adroddiad a'r Cofnodion sy'n nodi'r cynnig i gytuno ar y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yma.</p>
<p><u>Ymgynghori</u> Moderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn.</p>	<p>Roedd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o broses ymgynghori ffurfiol y Cyngor.</p>	<p>Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnal gwaith 'Cyn Craffu' ar yr adorth i'r ymgynghoriad.</p> <p>Cafodd y mater ei gynnwys ar ei raglen waith ar gyfer y dyfodol fel blaenoriaeth.</p> <p>Galw ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Lles i asesu'r mater ar y cyd.</p>	<p>Mae modd gweld yr adroddiad ar Foderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn yma</p>
<p><u>Ymgynghori</u> Protocol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd</p>	<p>Cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ddylanwadu ar y Protocol a'i fabwysiadu'n ffurfiol, gan roi cyngor i'r cyhoedd ar sut i gymryd rhan ym mhroses Craffu'r Cyngor.</p>	<p>Chwaraeodd y Pwyllgor Craffu ran ganolog wrth lunio'r Protocol, sy'n datblygu drwy fewnbwn adeiladol ac sydd wedi'i gyhoeddi ar dudalen we benodol y Pwyllgor Craffu er mwyn annog rhagor</p>	<p>Mae modd gweld y protocol a fabwysiadwyd ar dudalen we benodol y Pwyllgor Craffu yma</p>

		o'r cyhoedd i gymryd rhan ac ymgysylltu.	
PWYLLGOR CRAFFU – CYLLID A CHYFLAWNIAD			
<u>Gwaith 'Cyn Craffu'</u> Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor 2018/19 - Drafft Mae modd gweld copi o'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft yma ;	Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad ddadansoddi ac adolygu'r Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft.	Gwnaeth y Pwyllgor Craffu nifer o arsylwadau gwerthfawr yn rhan o'r ymarfer cyn craffu a lle bo hynny'n bosibl, cafodd y rhain eu cynnwys yn yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol wedi'i ddiweddarau 2018/19.	Mae'r adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer: - Cabinet -17 Gorffennaf 2018 yma Cyngor - 25 Gorffennaf 2018
<u>Gwaith 'Cyn Craffu'</u> Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/20 Mae modd cael copi o adroddiad 2019/20 yma	Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgo Craffu - Cyllid a Chyflawniad adolygu Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/20.	Gweithiodd y Pwyllgor Craffu yn galed i herio Strategaeth Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2019/20 a mynegodd ei farn i'r Cabinet ynghylch cynigion strategaeth y gyllideb.	Adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad wedi'i ddiweddarau i'r Cabinet - 14 Chwefror 2019 yma
<u>Ymgynghori</u> Ymgynghoriad - Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/20 Gellir ei weld yma	Mae'r Cylch Gorchwyl Cyllid a Chyflawniad yn cynnwys y broses Ymgynghori Cyllideb Refeniw flynyddol.	Rhoddodd y Pwyllgor Craffu adborth i'r Cabinet ynghyd ag ymgynghoreion eraill fel bod modd i'r Cabinet gytuno ar Strategaeth Gyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20	Adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad wedi'i ddiweddarau i'r Cabinet - 14 Chwefror 2019 yma
PWYLLGOR CRAFFU – CYNNAL GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMUNEDAU A FFYNIANT			
<u>Gwaith 'Cyn Craffu'</u> Llwybrau'r Fro Dau - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf 2019-19	Lluniodd y Pwyllgor Craffu'r Cynllun Gwella a fyddai'n llywio'r ddogfen bwysig hon yn y dyfodol.	Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i Bwyllgor Craffu'r Cabinet, gan ddweud bod angen i'r holl gysylltiadau ar gyfryngau	Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu'r gwaith o fabwysiadu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf 2019-2029.

		cymdeithasol sy'n ymwneud â mapiau rhyngweithiol fod yn ddwyieithog.	
Ymgynghori Adolygiad Cenedlaethol Heddlu De Cymru o gyfarfodydd Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd (PACT).	Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn y Cyngor, roedd y Pwyllgor Craffu yn rhan o ymgynghoriad ar y rhaglen Partneriaethau a Chymunedau Ynghyd er mwyn asesu ei effeithiolrwydd.	Yn dilyn y broses ymgynghori, caiff adroddiad cynhwysfawr ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor.	Y flwyddyn nesaf bydd y Pwyllgor Craffu yn asesu canlyniad yr Adolygiad Cenedlaethol ac yn parhau i ganolbwyntio ar effaith y newidiadau i'r cyfarfodydd cymunedol yma.
Ymgynghori Asesu effaith Pwyllgor Cynllunio a Datblygu'r Cyngor	Aeth y Pwyllgor Craffu ati i asesu effeithiolrwydd y trefniadau cyfredol sydd ar waith ar gyfer Pwyllgor Cynllunio a Datblygu'r Cyngor.	Roedd rhai o argymhellion y Pwyllgor Craffu yn cynnwys: - Hyfforddiant i bob Aelod ar y broses gynllunio gyda gwahoddiad i Gyfarwyddwr Arolygiaeth Gynllunio Cymru.	Cyflwynodd yr Arolygiaeth Gynllunio hyfforddiant ar ei rôl ar 24 Ionawr 2019 ; Cafodd hyfforddiant cyn ymgynghori ei ddarparu ar 18 Hydref 2018 ; Cafodd hyfforddiant ar y Fenter 'Plot Shop' ei ddarparu ar 8 Tachwedd 2018 .
GWAITH CYN CRAFFU AR GYFER Y PWYLLGOR CRAFFU - IECHYD A LLES A'R PWYLLGOR CRAFFU - PLANT A PHOBL IFANC			
Bwrdd Diogelu Cwm Taf – Adroddiad Blynyddol 2017/18	Mae gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn, i dangos ei effeithiolrwydd o ran ymarfer ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol flaenorol.	Cymeradwyodd y ddau Bwyllgor Craffu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf 2017/2018, er bod nifer o geisiadau am wybodaeth ddilynol ac adroddiadau wedi deillio o'r adolygiad yma fel bod modd i'r Pwyllgor Craffu barhau i fonitro a herio gwaith y Bwrdd.	Mae modd gweld y fersiwn derfynol o Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf 2017/2018 yma

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (Drafft) 2017/18	Mae Rhan 8 o God Ymddygiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad blynyddol. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r ddau Bwyllgor ar gyfer ymarfer cyn craffu.	Yn dilyn sesiwn heriol, cytunodd y ddau Bwyllgor Craffu ar Adroddiad Blynyddol 2017/18 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.	Cafodd yr adroddiad terfynol ei drafod gan y Cabinet yma
Gweithdrefnau Sylwadau a Chwynion - Adroddiad Blynyddol	Mae Rheoliadau Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn gofyn i'r Awdurdod Lleol. lunio adroddiad blynyddol a dylai'r adroddiad hwnnw gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu priodol.	Cydnabyddodd y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles a'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc y gwaith a wnaed gan Garfan Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol a rhoi'r model gwasanaeth ar waith yn y dyfodol.	Mae modd gweld yr adroddiad terfynol yma .
PWYLLGOR CRAFFU – IECHYD A LLES			
Gwaith 'Cyn Craffu' Strategaeth Digartrefedd Rhondda Cynon Taf 2018-2022	Archwilio addasrwydd y Strategaeth Digartrefedd ddrafft ar gyfer 2018-2022	Cytunwyd bod yr amcanion a'r camau gweithredu strategol sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth yn cael eu rhoi ar waith gydag ymrwymiad i gynnal adolygiad pellach yn y flwyddyn i ddod.	Mae modd gweld yr adroddiad terfynol yma .
Gwaith 'Cyn Craffu' Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) 2014, Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fis Ebrill 2019, yn unol â darpariaethau Deddf	Asesu effeithiolrwydd Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (HMOs) 2014, ac, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad, craffu ar gynnig i gyhoeddi Cynllun Trwyddedu	Cytunodd y Pwyllgor Craffu y dylid gosod amodau trwyddedu ar yr holl drwyddedau HMO a roddir gan y Cyngor o dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol a'r Cynllun Trwyddedu	Mae'r adroddiad i'w weld yma .

Tai 2004.	Ychwanegol Newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth o fis Ebrill 2019, yn unol â darpariaethau Deddf Tai 2004.	Ychwanegol newydd arfaethedig o fis Ebrill 2019.	
Ymgynghori Canolfannau Oriau Dydd Cymunedol	Roedd y Pwyllgor Craffu yn rhan o broses ymgynghori ffurfiol y Cyngor, a gafodd ei chynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau lleol er mwyn trafod dyfodol y pedair canolfan Oriau Dydd Cymunedol sy'n weddill.	Darparodd y Pwyllgor Craffu adborth trylwyr er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn gost effeithiol ac yn bodloni ymrwymiad y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.	Mae'r adroddiad i'w weld yma .
Ymgynghori Strategaeth Toiledau Ddrafft	Roedd y Pwyllgor Craffu'n rhan o'r gwait o lunio Strategaeth Toiledau lleol y Cyngor, sydd wedi bod yn destun proses ymgynghori gyda darparwyr a thrigolion yn seiliedig ar eu hanghenion.	Bwydodd y Pwyllgor Craffu i mewn i'r broses ymgynghori gyda'r nod o wella mynediad i doiledau, a'r ddarpariaeth ledled y sir.	Mae adroddiad yr ymgynghoriad i'w weld yma .
PWYLLGOR CRAFFU – PLANT A PHOBL IFAINC			
Ymgynghori Cynnig Moderneiddio Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif	Cyfle i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif - Cynigion i wella Addysg ym Mhontypridd a Chwm Cynon.	Gwnaeth y Pwyllgor Craffu gyfraniadau sylweddol i gynnig Rhaglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif, a wnaeth alluogi'r Pwyllgor i gyfrannu at y newid gwasanaeth yn gynnar.	Mae modd gweld y cynigion i wella darpariaeth addysg yng Nghwm Cynon yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif yma
Ymgynghori Strategaeth Llety ar gyfer Pobl Ifainc 16+	Mae'r strategaeth ddrafft yn amlinellu sut y bydd Cyngor	Cymeradwyodd y Pwyllgor Craffu y strategaeth llety	Gellir dod o hyd i'r Strategaeth Llety ddrafft ar gyfer pobl

	Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn mynd ati i gefnogi pobl ifainc 16+ oed, sy'n gadael gofal ac angen llety a chefnogaeth, yn y dyfodol.	ddrafft ar gyfer Pobl Ifainc 16+ oed sy'n Gadael Gofal, a bydd yn monitro gweithrediad a chyflawniad y Strategaeth.	ifanc 16+ oed yma .
Gwaith 'Cyn Craffu' Strategaeth Mynychu'r Ysgol 2018-2021	Tynodd y Pwyllgor Craffu sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth o bresenoldeb da yn yr ysgol a gwella cyfraddau cyfredol ar draws Rhondda Cynon Taf.	Argymhellion y Pwyllgorau Craffu: Sefydlu mentrau Gwyllo Triwantiaeth ac Ardaloedd Dim Triwantiaeth a chael Llywodraethwyr Ysgol i gymryd rhan yn gynnar mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â phresenoldeb yn yr ysgol yn y dyfodol.	Mae modd gweld yr adroddiad terfynol yma .
Gwaith 'Cyn Craffu' Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019/2020	Roedd y Pwyllgor Craffu eisiau'r cyfle i gymeradwyo'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r cynllun gweithredu cyn iddyn nhw gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2019.	Cyfrannodd y Pwyllgor Craffu at yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r cynllun gweithredu a'u cymeradwyo, gan gytuno i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.	Mae modd gweld Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019/2020 yma .

3. Roedd Pwyllgorau Craffu hefyd yn cynnig her adeiladol a beirniadaeth gadarnhaol yn y meysydd canlynol i gefnogi'r gwaith o ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o'r Cyngor.

Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant

- Gorfodi Gofal y Strydoedd yn Rhondda Cynon Taf
- Safle Ailddatblygu Dyffryn Taf
- Gwella Ailgylchu yn Rhondda Cynon Taf
- Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) ar gyfer rheoli cŵn
- Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017/2018
- Cwynion Camweinyddu i Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru - 2017/2018
- Trawsnewid Gwasanaeth y Llyfrgell Deithiol yn Rhondda Cynon Taf
- Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth
- Y Broses Statudol ar gyfer symud Carafanau a rhwystrau eraill o'r briffordd
- Gorfodi Rheolau Parcio Sifil

Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (Trosedd ac Anhrefn)

- Prosiect DIVERT 18-25
- Prosiect Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru (WISDOM)
- Cynllun Diogelwch Cymunedol Cwm Taf 2018-21
- Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn Partneriaeth

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

- Trefniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl
- Rhaglen Waith Ddigidol Rhondda Cynon Taf
- Rheoli Gwybodaeth (gan gynnwys Adolygiad o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol)
- Aseiad Risg Tân - Adolygiad o'r Gweithdrefnau ar gyfer Adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu defnyddio gan y Cyngor
- Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor

Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles

- Datblygu a Darparu Caeau 3G Ledled Rhondda Cynon Taf
- Strategaeth Cartrefi Gwag 2018-2021
- Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref
- Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Gwerthuso effaith trosglwyddo cyfleusterau cytiau cŵn i Hope Rescue
- Oedi wrth Drosglwyddo Gofal
- Ymwybyddiaeth ynglŷn ag Iechyd Meddwl

Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc (Addysg)

- Canlyniadau o ran Plant sy'n Derbyn Gofal yn Rhondda Cynon Taf 2016/17
- Adolygiad o Hysbysiadau Cosb Benodedig am gollir ysgol yn rheolaidd
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP)
- Monitro'r holl Gyfnodau Allweddol
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ADY - TA)
- Hwb SEREN
- Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2017/2018
- Effaith Gwaith Cynllun Busnes Consortiwm Canolbarth y De ar Rhondda Cynon Taf

Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc (Gwasanaethau i Blant)

- Cynllun Gwaith Panel Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal Rhondda Cynon Taf 2018/19
- Bwrdd Rhianta Corfforaethol – Adroddiad Blynyddol

- Mabwysiadu Rhanbarthol – Adroddiad Blynyddol
- Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf
- Lleoliadau Plant sy'n Derbynn Gofal yn Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaeth Cwnsela yn yr Ysgol 2017/18
- Gwasanaeth Cynhalwyr Ifainc Rhondda Cynon Taf

Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad

- Hunanasesiad Corfforaethol a Hunanasesiad o Wasanaethau'r Cyngor
- Adroddiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20
- Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys - Adroddiad Canol Blwyddyn
- Adroddiad Strategaeth Cyfalaf 2019/20
- Uned Gynhyrchu Ganolog Prydau yn y Gymuned
- Ardoll Seilwaith Cymunedol
- Adolygu'r Targedau ar gyfer Dangosyddion Cyflawniad 2018/19
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/19

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU



L. M. Adams - Cadeirydd **S. Evans - Is-gadeirydd**



H. Boggis



J. Bonetto



J. Brencher



G. Caple



A. Cox



E. George



M. Griffiths



J. Harries



P. Jarman



D. Macey



S. Morgans



E. Stephens



L. Walker

Cylch Gorchwyl

Cydlynu gwaith y pedwar Pwyllgor Craffu thematig a sicrhau bod gwaith pob un o'r Pwyllgorau yma'n yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo'r rhaglenni gwaith sydd wedi'u datblygu gan y pedwar pwyllgor craffu thematig i sicrhau bod modd cyflawni'r rhaglenni hynny a'u bod yn gydlynol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yn ogystal â hyn, mae'n cyflawni'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â phob thema drawsbynciol "Cyngor cyfan" sy'n berthnasol i gylchoedd gorchwyl y pedwar Pwyllgor Craffu thematig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ddelio â phob achos sy'n cael ei 'Alw i Mewn' (o dan Reolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu y Cyngor).

Ers Etholiadau Llywodraeth Leol 2017, mae newidiadau wedi digwydd i Gydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor. Arweiniodd hyn at gynyddu nifer yr aelodau yn holl Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o 11 i 15 sedd. Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James yn Aelod o'r Pwyllgor yma hyd at 28 Tachwedd, 2018 pan ddigwyddodd newidiadau pellach i'r Cydbwysedd Gwleidyddol o ganlyniad i ostyngiad yn nifer aelodau grwpiau Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr. Disodlwyd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths yn dilyn y newidiadau yma.

Mae rhan gyntaf yr adroddiad yma'n dangos pa mor amrywiol a helaeth yr oedd gwaith Craffu'r Cyngor eleni. Felly, o gofio hynny, hoffwn gyfeirio at ddim ond rhywfaint o waith allweddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

'Addas ar gyfer y Dyfodol'

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad craffu 'ysgafn' a oedd yn canolbwyntio ar ba mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw'r syddogaethau craffu o fewn Cynghorau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys sut rydyn ni i gyd yn ymateb i heriau cyfredol fel gwaith craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ogystal â hynny, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith dilynol ar yr adolygiad thematig a gynhaliwyd yn 2016/17 - "Trefniadau Llywodraethu Da ar gyfer Penderfynu ar Newidiadau Sylweddol yn y Gwasanaeth". Er mwyn llywio'r gwaith, roedd methodoleg Swyddfa Archwilio Cymru yn seiliedig ar adolygu dogfennau, cyfweld â detholiad o Aelodau Cabinet, Aelodau'r Pwyllgor Craffu a Swyddogion allweddol, yn ogystal ag arsylwi rhai o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. Ar 22 Hydref 2018, cafodd canlyniadau'r adolygiad eu hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gofynnwyd i ni werthuso'r cynllun gweithredu a oedd yn nodi ymateb y Cyngor i'r cynigion ar gyfer gwella.

Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru fod angen i ni wneud rhagor o'r canlynol: -

- *Atgyfnerthu'r gefnogaeth ar gyfer Craffu;*
- *Cynllunio gweithgareddau Craffu yn well;*
- *Dangos effaith gwaith craffu.*

Dyma rai o'r trefniadau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith: -

- *Creu 'Uned Busnes y Cyngor' newydd sy'n cyfuno'r gefnogaeth a oedd yn arfer cael ei gynnig yn annibynnol gan y Gwasanaethau Democraidd ac Aelodau a'r Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol;*
- *Cyflogi Swyddog Craffu Graddedig i ymgymryd ag ymchwil penodol mewn perthynas â chraffu;*
- *Parhau i ddatblygu a hyrwyddo sesiynau ymgysylltu'r Pwyllgorau Craffu/Cabinet a pharhau i wahodd Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgorau Craffu (hyd yma rydyn ni wedi derbyn 6 Aelod Cabinet a'u hadroddiadau sy'n amlinellu eu portffolios unigol);*
- *Parhau â'n dull newydd o raglennu gwaith Craffu ac ymgysylltu â rhaglen waith y Cabinet er mwyn nodi meysydd ar gyfer gwaith cyn craffu ar bob cyfle;*

- *Gwthio tystiolaeth o effaith gwaith craffu yn ei flaen drwy ddatblygu polisïau yn seiliedig ar argymhellion a weithredwyd gan y Gweithgorau Craffu:*

Ymgysylltu â'r Cyhoedd - Rydyn ni'n dal i edrych ar ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'r cyhoedd yn well wrth Craffu. Mae'n dal i fod yn fater heriol ond mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ymwneud yn fawr â'r gwaith o nodi lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd. Rydyn ni wedi llunio protocol siarad cyhoeddus a fydd yn galluogi'r cyhoedd i allu mynychu ein cyfarfodydd craffu pe hoffon nhw wneud hynny, gyda chanllawiau a chefnogaeth ar sut i ymuno â ni. Mae'r ddogfen yma bellach wedi'i chyhoeddi ar dudalennau gwe'r Pwyllgor Craffu. Bydd hyn yn gwneud y ddogfen yn fwy hygyrch ac yn fwy amlwg gan bod baner i'r dudalen yma i'w gweld ar dudalen laniog'r wefan (sef y peth cyntaf y mae pawb yn ei weld wrth agor gwefan y Cyngor). Rydyn ni wedi cynnwys 'blog' Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a ysgrifennwyd gan ein Cadeiryddion er mwyn dod â'n gweithagrach craffu'n fwy byw i chi. Roedd nifer galonogol o bobl wedi ymweld â'r tudalennau yma dros gyfnod o 12 mis, ond byddwn ni'n parhau i fonitro'r gweithgarwch yma fel bod modd i ni olrhain cynnydd. Yn y dyfodol, rydyn ni hefyd yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am ein gweithgorau craffu, sy'n ffurfio rhan annatod o'r rhaglenni gwaith craffu. Drwy ganolbwyntio ar gynnal ac adnewyddu tudalennau gwe'r Pwyllgorau Craffu, byddwn yn ceisio gwella cyfranogiad ein preswylwyr a'u dealltwriaeth o'r broses Craffu. Byddwn hefyd yn datblygu'r llwyfan ymhellach er mwyn parhau i hyrwyddo gwaith ein swyddogaeth graffu.

Pwysigrwydd gwerthuso - mae aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu eisoes wedi cydnabod yr angen am weithdrefnau gwerthuso effeithiol fel bod modd myfyrio ar werth ein gweithgareddau Craffu, yr hyn sydd wedi gweithio, a pha wersi y gallwn ni eu dysgu. Bydd hyn yn rhoi eglurder ynghylch effaith ein gwaith a'n canlyniadau. Trafodon ni'r ffordd orau o wneud hyn a phenderfynu bod modd gwneud gwaith dilynol ar unrhyw argymhellion sydd wedi'u gweithredu gan y Swyddogion Gweithredol ar ffurf adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Bydd hyn yn dangos y cynnydd a wnaed ac yn mesur p'un a yw'r canlyniadau wedi effeithio ar fywydau ein preswylwyr. Byddwn yn parhau i fonitro hyn y flwyddyn nesaf.

Mae'r ymatebion cychwynol yma yn sylfaen ar gyfer ein hymdrechion i wella gwaith craffu lleol, sy'n waith parhaus. Rydyn ni wedi cyfarwyddo'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu, i roi gwybod i ni am ei ganfyddiadau ynglŷn â'r trefniadau craffu presennol fel bod modd parhau'n rhagweithiol gyda'n hymatebion i Swyddfa Archwilio Cymru. Gwnaethon ni ofyn a fyddai modd rhoi gwybod i ni am unrhyw drefniadau newydd erbyn Ebrill 2019 a'u rhoi ar waith erbyn cyfarfod cyffredinol blynyddol y Cyngor 2019.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Fframwaith Craffu

Soniais yn fy rhagair y bydd y Fframwaith Craffu a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio'r ffordd rydyn ni'n cynnal gwaith Craffu yn y blynyddoedd i ddod. Yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2018, cytunodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i weithio ochr yn ochr â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i dreialu pecyn adnoddau Craffu newydd. Cafodd templed craffu diweddaraf y Comisiynydd ei gyhoeddi ddiwedd [Chwefror](#) 2019. Mae'r Gweithgor Craffu a sefydlwyd i ymgymryd â'r darn hwn o waith yn cynnwys croestoriad o Aelodau Pwyllgorau Craffu. Mae hyn fel bod modd iddyn nhw gael blas ar ddull gweithredu'r Comisiynydd a sefydlu model craffu posibl ar gyfer Rhondda Cynon Taf mewn perthynas a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cyn mynd yn ôl at eu Pwyllgorau Craffu priodol ar ôl gorffen y gwaith er mwyn arwain y ffordd fel hyrwyddwyr yn eu maes. Rydyn ni hefyd yn rhagweld y bydd fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion yn cael yr hyfforddiant yma yn y dyfodol fel bod modd sicrhau bod ein hymagwedd at graffu yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn y modd priodol.

Yn ei gyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019, cafodd aelodau'r gweithgor Craffu wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd hyn nid yn unig i brofi eu dealltwriaeth o'r Ddeddf, ond hefyd i'w cefnogi wrth baratoi i ystyried a phrofi

egwyddorion y Ddeddf trwy ystyried datblygu seilwaith cerbydau carbon isel (LCV) ar draws Rhondda Cynon Taf (yn deillio o Rybudd o Gynnig yn y Cyngor Llawn ar [28 Chwefror 2018](#) a gafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu i'w adolygu).

Pwrpas y Grŵp yw ystyried datblygu isadeiledd er mwyn cefnogi Cerbydau Carbon Isel a fydd yn gwella lles Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol pobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf. Wrth drafod hyn, mae'r Gweithgor yn rhoi Fframwaith Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol, yn bennaf egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf, ar waith drwy'r pum ffordd o weithio, sef, Integreiddio, Cydweithio, Meddwl am y tymor hir, Cynnwys ac Atal.

Yn rhan o'i ystyriaethau, bydd y Grŵp yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r gwaith o ddatblygu isadeiledd ar gyfer Cerbydau Carbon Isel ledled Rhondda Cynon Taf a fydd yn llywio datblygiad effeithlonrwydd fflyd y Cyngor ei hun trwy fabwysiadu technolegau Cerbydau Carbon Isel. Mae'r dull gweithredu yma'n galluogi'r Grŵp i greu darlun ehangach o'r heriau a'r cyfleoedd y bydd Cerbydau Carbon Isel yn eu cynnig i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Rhondda Cynon Taf.

Rwy'n edrych ymlaen at y darn hwn o waith ac rwy'n rhagweld y bydd yr argymhellion yn defnyddio arfer gorau a gwerthusiadau wrth ystyried anghenion y trigolion a'r gweithlu yn Rhondda Cynon Taf. Caiff hyn ei wneud drwy ddangos ein bod yn gweithio tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol mewn modd mwy cynaliadwy.

Trefniadau Diogelwch Tân ar gyfer Tai Cymdeithasol, Tai â Chymorth, Tai Amffeddiannaeth, ac Adeiladau sy'n Eiddo i'r Cyngor.

Gwnaeth trychineb Tŵr Grenfell ein hatgoffa'n llwyr o bwysigrwydd diogelwch ein staff a'n preswylwyr, a'r angen i sicrhau bod ein hadeiladau yn bodloni'r safonau diogelwch angenrheidiol. Yn dilyn y drychineb, cynhaliodd yr Awdurdod Lleol yma archwiliad mewn perthynas â Threfniadau Diogelwch Tân ar gyfer Tai Cymdeithasol, Tai â Chymorth, Tai Amffeddiannaeth ac Adeiladau'r Cyngor. Penderfynwyd, o ystyried y materion trawsbynciol, y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Yn gynnar yn 2018 cynhaliodd y Pwyllgor yma ymchwiliad manwl i'r mater. O ganlyniad i'n hymyriadau mae nifer o arferion pwysig wedi cael eu rhoi ar waith, megis: -

- Ail-sefydlu Gweithgor Diogelwch Tân i nodi blaenoriaethau iechyd a diogelwch corfforaethol allweddol;
- Darparu cyfarwyddiadau penodol i atgyfnerthu dyletswyddau'r Unigolion Cyfrifol ar 'lefel safle';
- Adolygu'r rhestr o 'Unigolion Cyfrifol' ar gyfer pob eiddo;
- Mae'r Garfan Iechyd a Diogelwch yn parhau i gynnal rhaglen dreigl o archwiliadau diogelwch tân sy'n cael eu blaenoriaethu ar sail risg.

Gwnaethon ni hefyd ofyn am adroddiadau cynnydd yn rheolaidd fel y bod modd i ni nodi lle mae angen rhagor o gynnydd.

Yn ein cyfarfod ym mis Rhagfyr 2018, canolbwyntiodd y drafodaeth ar y gweithdrefnau gwacáu/tân mewn cartrefi gofal preswyl ac ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Soniodd yr aelodau am yr angen i gynnal gwiriad ychwanegol i sicrhau bod yr holl staff sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio gweithdrefnau tân/iechyd a diogelwch yn deall y prosesau a'r cyfrifoldebau. Argymhellodd yr aelodau fod cwrs e-ddysgu gyda phroffion i'w gwblhau ar gael fel sicrwydd ychwanegol. Byddwn ni'n parhau i dderbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gyda'r bwriad o atgyfnerthu'r trefniadau yn y dyfodol.

Galw i Mewn

Yn unol â rheolau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ddelio â phob achos sy'n cael ei 'Alw i Mewn' (o dan Reolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu y

Cyngor). Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar [3 Ebrill 2019](#) i ymdrin â dau achos a oedd wedi'u galw i mewn, a hynny mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet ynglŷn â chynigion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Roedd y rheswm dros alw'r achosion i mewn yn ymwneud â nifer o faterion, fel y dull ymgynghori a ddefnyddiwyd gyda rhanddeiliaid perthnasol a phartion â diddordeb, Addysg Gymraeg a phryderon bod y Cabinet wedi methu â chyflawni ei ddyletswyddau'n ddigonol o dan ddarpariaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ogystal â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwsanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg yn rhan o'r cyfarfod. Fe wnaethon ni hefyd groesawu tri siaradwr cyhoeddus i'n pwyllgor ac roedd cyfle iddyn nhw leisio eu barn a'u pryderon i'r Pwyllgor (roedd hyn yn dilyn ein canllaw cyfranogiad cyhoeddus a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac a gytunwyd yn ffurfiol gan aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn cael ei gyhoeddi i'r cyhoedd ar dudalen we'r Pwyllgorau Craffu). Yn dilyn llawer o drafod a dadlau ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â'r cynigion i ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd a'r ddarpariaeth Chweched Dosbarth yn ardal ehangach Pontypridd, penderfynwyd nad oedd y ddau achos oedd wedi'u Galw i Mewn yn llwyddiannus h.y. chawson nhw ddim eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hailystyried.

Casgliad

Rydw i'n gobeithio ein bod wedi ddangos dull newydd o raglennu gwaith eleni, gan fynd i'r afael â sut mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n blaenoriaethu gwaith yn unol ag amcanion yr aelodau a'r cyngor yn ogystal â dangos sut rydyn ni'n ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella ein trefniadau Craffu. Credaf ein bod wedi darparu gwrthrychedd, rhesymeg, her adeiladol ac wedi gwneud llawer o argymhellion meddylgar a chytbwys sy'n cyflawni newid. Serch hynny, byddwn yn parhau i weithio'n galed i wella ymhellach ar y rhain y flwyddyn nesaf.

Hoffwn gydnabod fy Is-gadeirydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Evans sydd wedi fy helpu yn fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Rhyngom ni rydyn ni'n mynychu cyfarfodydd y pedwar Pwyllgor Craffu thematig arall yn rheolaidd i ddangos cefnogaeth i'n Cadeiryddion. Rydw i'n ddiolchgar i aelodau'r gwahanol baneli craffu am eu gwaith caled a'u cyfraniadau drwy gydol y flwyddyn. Rydw i hefyd yn ddiolchgar i'r holl grwpiau lleol, sefydliadau cenedlaethol ac unigolion sydd wedi dod i'r cyfarfodydd, wedi gwneud cyflwyniadau ac wedi darparu tystiolaeth, ac i swyddogion y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet am eu presenoldeb.

PWYLLGOR CRAFFU – PLANT A PHOBL IFAINC



S.Rees-Owen - Cadeirydd



W.Lewis - Is-gadeirydd



H.Boggis



J.Brencher



A. Calvert



J. Davies



A. Davies-Jones



S. Evans



H. Fychan



M. Griffiths



J. Harries



G. Jones



M. Powell



S. Powell



G. Stacey

Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor Craffu yma yn craffu ar yr holl ddarpariaeth addysg rhwng 3 a 19 oed a'r Gwasanaethau i Blant.

A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, mae'n bleser gen i adrodd ar flwyddyn gynhyrchiol arall, ynghyd â'm His-gadeirydd y Cynghorydd Wendy Lewis, sydd wedi bod yn gefn i mi ar hyd y flwyddyn brysur yma.

Croesawon ni Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Alexandra Davies-Jones i'n Pwyllgor yn dilyn newidiadau i'r Cybwysedd Gwleidyddol ym mis Tachwedd 2018. Daeth hi'n aelod o'r Pwyllgor yn lle'r Cynghorydd Lewis Hooper. Hoffem hefyd ddiolch i'r Cynghorydd Hooper am ei holl waith caled tra yr oedd yn aelod o'r Pwyllgor.

Unwaith eto, rydyn ni wedi cael blwyddyn brysur iawn yn ystyried materion yn ymwneud ag Addysg a'r Gwasanaethau i Blant, lle rydyn ni'n ystyried yr holl elfennau allweddol sydd eu hangen i gefnogi a diogelu plant a phobl ifanc Rhondda Cynon Taf i'w helpu i gyrraedd eu potensial. Rydw i ac Aelodau eraill y Pwyllgor yn teimlo ein bod ni wedi cael 12 mis cynhyrchiol iawn yn ystyried pynciau o bwys mawr sydd wedi llunio argymhellion a deilliannau gwerthfawr yn ystod Blwyddyn y Cyngor yma, ac a fydd yn gwneud hynny ar gyfer y flwyddyn i ddod hefyd.

Rhaid imi ddiolch hefyd i'r Aelodau Cyfetholedig o faes Addysg wrth gwrs, sy'n aelodau gwerthfawr o'r Pwyllgor Craffu yma. Dydy'r cynrychiolwyr yma ddim yn aelodau etholedig o'r Cyngor, ac maen nhw wedi'u penodi oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad helaeth. Maen nhw'n cynnig cyfraniadau defnyddiol i'r trafodaethau ac yn ein helpu i wneud penderfyniadau addas mewn perthynas â materion pwysig.

Mae'r pynciau canlynol yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc.

Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Rwy'n falch ein bod ni fel Pwyllgor wedi cael y cyfle i gyfrannu a rhoi sylwadau ar nifer o gynigion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor. A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, mae'n bleser gen i ddatgan mai ni yw un o'r Pwyllgorau Craffu cyntaf i gymryd rhan mewn proses o'r math yma a bydd gyda ni gyfle yn y dyfodol i gyfrannu at unrhyw ymgynghoriadau pellach.

Ar 19 Rhagfyr 2018, croesawon ni'r cyfle i gyfrannu at y broses ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â Rhaglenni Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif – Cynigion i Wella Addysg yn Ardal Ehangach Pontypridd a Chynigion i Wella Addysg yng Nghwm Cynon. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a Swyddogion Addysg eraill y Broses Ymgynghori ffurfiol i'r Aelodau, lle cawson ni gyfle i roi ein barn a'n sylwadau. Roedd y rhain yn cyfrannu at y Ddogfen Ymgynghori a gafodd ei chyflwyno i'r Cabinet ar y diwrnodau canlynol:

- Cynnig Cwm Cynon - Cyfarfod y Cabinet 24 Ionawr.
- Cynnig ardal Ehangach Pontypridd – Cyfarfod y Cabinet 21 Mawrth 2019.

Rydyn ni hefyd wedi achub ar y cyfle i edrych ar ddatblygiadau diweddar a fu'n rhan o broses Band A Darpariaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae grŵp o Aelodau o'n Pwyllgor wedi

ymweld â phedair o'r ysgolion newydd a ddatblygwyd drwy Broses Band A yn ddiweddar. Ymwelwyd â'r ysgolion canlynol:

- Ysgol Nant-gwyn,
- Ysgol Gymuned y Porth,
- Ysgol Gymuned Tonyrefail, ac
- Ysgol Gynradd Cwmaman

Wrth ymweld â'r ysgolion uchod, roedden ni'n falch o weld y cyfleusterau newydd sbon sydd ar gael i Blant a Phobl Ifainc y Fwrdeistref Sirol. Cawson ni gyfle hefyd i siarad â phenaethiaid, staff a disgyblion er mwyn gofyn eu barn ar y darpariaethau newydd. Roedd yr adborth o'n hymweliad yn gadarnhaol, ond fe ddaeth i'n sylw fod angen rhagor o gefnogaeth ar gyfer y broses o drosi'n ysgol 3-16 oed. Fel Pwyllgor, rydyn ni wedi cytuno i gwblhau darn o waith ymhen 12 mis i ystyried sut y mae'r cynnig Band A yn mynd rhagddo.

Hoffwn i achub ar y cyfle yma i ddiolch i'r Penaethiaid am ganiatáu inni ymweld â'u hysgolion. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eu croesawu nhw i gyfarfod y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn y dyfodol i drafod eu profiadau ac ystyried data newydd.

Byddwn ni'n parhau i fonitro cynnydd yr ysgolion yma ynghyd ag unrhyw gynigion eraill sy'n dod i'n sylw er budd ehangach plant a phobl ifainc.

Cynhyrchion Glanweithiol mewn Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf.

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2017/18, ffurfiodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc weithgor i fynd i'r afael â'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Nododd y Rhybudd o Gynnig:

'Bydd y Cyngor yma'n ymchwilio i argaeledd cynnyrch glanweithiol rhad ac am ddim, megis tamponau a thyweli, ym mhob Ysgol Uwchradd yn y Sir, gan gydnabod eu bod mor hanfodol â phapur tŷ bach ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd.'

Fel Pwyllgor, roedden ni'n hapus ym mis Chwefror 2018 i weld y Cyngor llawn yn cefnogi'r gofyniad bod pob ysgol yn RhCT sydd â disgyblion 9 oed neu'n hŷn yn darparu cynhyrchion glanweithiol am ddim i ddisgyblion benywaidd gael mynediad atyn nhw'n annibynnol. Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth derfynol i'r cynllun yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, a chychwynnodd treial 6 mis yn nhymer yr hydref.

Gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion ddarparu adroddiad ymhen 6 mis i weld pa gynnydd oedd wedi'i wneud o safbwynt yr argymhellion. Mae'n ymddangos bod y cynllun wedi'i weithredu ar draws y rhan fwyaf o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf. Roedd y mwyafrif llethol o ymatebion gan ysgolion yn gadarnhaol, sy'n awgrymu roedd angen am yr arweiniad y mae'r awdurdod lleol wedi'i ddangos yn y maes yma, a'i fod wedi'i dderbyn yn dda.

Trafodon ni'r adroddiad yn fanwl gan gytuno y byddai'r Gweithgor yn ymgymryd ag adolygiad pellach ymhen 6 mis arall. Byddai'r adolygiad hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, yn barod ar gyfer trafodaeth y Cabinet am gyllid ychwanegol o Ebrill 2020 ar ôl i Grant Llywodraeth Cymru ddod i ben.

Buon ni'n trafod cymaint o adroddiadau a phynciau eraill ym maes addysg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond y pynciau uchod yw uchafbwyntiau'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud er

mwyn cyfrannu at ddyfodol gwell i addysg plant a phobl ifainc. Byddwn ni'n parhau i graffu ar y gwasanaeth hyd eithaf ein gallu yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Yn rhan o gylch gwaith portffolio Gwasanaethau i Blant y Pwyllgor, rydyn ni wedi parhau i fynd i'r afael â'r heriau a godwyd yn ystod blwyddyn ddiwethaf y Cyngor, yn ogystal â meysydd perthnasol newydd.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Fel Pwyllgor, roedden ni'n pryderu am les aelodau iau ein cymunedau ac felly roedd teimlad yn ein mysg fod angen inni ystyried y cymorth sydd ar gael i wella iechyd meddwl plant a phobl ifainc ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ym mis Hydref 2018, gwahoddon ni'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc (CAMHS) i'r pwyllgor lle cawson ni drafodaeth drylwyr. Roedd yr aelodau'n teimlo'n angerddol bod angen rhagor o gydweithio rhwng Gwasanaethau Iechyd, Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau Addysg a Sefydliadau'r Trydydd Sector er mwyn sicrhau bod amseroedd aros yn gostwng, bod anghenion y garfan fregus yma yn cael eu cymryd o ddifrif, a bod gweithredu i fynd i'r afael â materion o bwys mawr. Rydyn ni'n bwriadu monitro'r maes yma i ddiogelu iechyd a lles ein pobl ifainc.

Llety ar gyfer Pobl 16 Oed neu'n Hŷn sy'n Gadael Gofal

Ar ôl derbyn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant a Phennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc mewn perthynas â llety i blant sy'n agored i niwed yn RhCT, cytunon ni fod angen i'r Pwyllgor gyfrannu at y Strategaeth Llety. Ym mis Ionawr eleni, cyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Pwyllgor er mwyn inni lunio rhan o'r strategaeth derfynol a gyflwynwyd i'r Cabinet. Fel Pwyllgor, byddwn ni'n parhau i fonitro cynnydd y Strategaeth Llety ar gyfer Pobl 16 Oed neu'n Hŷn, oherwydd pa mor gymhleth yw rhai o'r anghenion corfforol neu feddyliol sydd gan blant yn y system. Mae angen i'r cyfnod pontio rhwng plentyndod a bywyd fel oedolyn fod mor llyfn a hawdd â phosibl, ac fel Pwyllgor, byddwn ni'n derbyn diweddariadau o hyn ymlaen er mwyn sicrhau bod Iechyd Meddwl a Lles ein pobl ifainc ar draws yr awdurdod yn flaenoriaeth.

Casgliad

Unwaith eto, buon ni'n gweithio'n agos gyda'r swyddogion perthnasol ar bynciau o bwys mawr ac rwy'n hyderu bod ein gwaith wedi gwneud gwahaniaeth. Gyda nifer o newidiadau mawr ar y gweill ym maes addysg a'r Gwasanaethau i Blant dros y misoedd nesaf, rwy'n credu ein bod ni wedi cyfrannu mewn modd cadarnhaol, a byddwn ni'n parhau i graffu ar addysg a'r Gwasanaethau i Blant er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posib ar gyfer plant Rhondda Cynon Taf.

PWYLLGOR CRAFFU – IECHYD A LLES



R. Yeo - Cadeirydd



G. Holmes - Is-gadeirydd



A. Chapman



J. Davies



L. De Vet



M. Forey



P. Howe



G. Hughes



L. Jones



D. Owen-Jones



A. Roberts



G. Stacey



M. Tegg



J. Williams



C. Willis

Cylch Gorchwyl

Cyflawni swyddogaeth trosolwg a chraffu mewn perthynas â chraffu ar y gwasanaethau sy'n cynnal Iechyd a Lles ein cymunedau. Mae'r Pwyllgor yn ystyried Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n cyfrannu at iechyd a lles y Fwrdeistref Sirol fel Gwasanaethau Hamdden, Materion Tai ac Iechyd a Lles y Cyhoedd.

Unwaith eto, mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r Aelodau. Cyn cyflwyno gwaith y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/19, hoffwn nodi fy niolch i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Glynne Holmes am ei holl waith yn Is-gadeirydd y Pwyllgor yma.

Rwy'n teimlo ein bod ni fel Pwyllgor wedi mynd i'r afael yn fwy cadarn â phroblemau o bwys i iechyd a lles sawl un yn ein cymdeithas. Rydyn ni'n parhau i fonitro'n drylwyr y gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i oedolion a'r to hŷn. Rydyn ni wedi craffu ar y meysydd canlynol:

- Atal ac ymyrraeth gynnar;
- Gwasanaeth Gofal yn y Cartref;
- Oedi wrth drosglwyddo gofal;
- Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref; a
- Darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol.

Mae'n bleser gen i gyhoeddi i'r Is-gadeirydd a minnau fynd i sesiwn ymgysylltu un-i-un ar ddechrau Blwyddyn y Cyngor gyda'r Cynghorydd Rhys Lewis, Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Llesiant. Roedd hyn yn gyfle inni drafod y pynciau helaeth sy'n dod o dan faner Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd y byddai modd i'n Pwyllgor fynd i'r afael â nhw.

Ymwelon ni â'r Cae 3G newydd yn Abercynon, a roddodd gyfle i ni weld sut y byddai'r buddsoddiad mawr yn y gwasanaethau hamdden o fudd i iechyd a lles corfforol a meddyliol aelodau ein cymunedau ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cynhalion ni gyfarfod cyntaf y flwyddyn yn Ystafell Alby Davies yng Nghanolfan Chwaraeon Abercynon er mwyn annog y cyhoedd i gyfrannu at ein proses graffu. Rydyn ni wedi trafod nifer helaeth o bynciau ar hyd y flwyddyn ac rwy'n teimlo y bydd yr adroddiad sy'n dilyn yn dangos gwaith caled y Pwyllgor i wella deilliannau i'n cymunedau yn RhCT.

Darpariaeth Gwelyau Nyrsio i'r Henoed Bregus eu Meddwl

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2017/18 ffurfiodd Aelodau o'r Pwyllgor yma Weithgor i ystyried argaeledd darpariaeth gwelyau nyrsio i'r henoed bregus eu meddwl ar draws Rhondda Cynon Taf. Parhaodd yr adolygiad yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2018/2019, a bu aelodau'r Gweithgor yn cyfarfod â darparwyr annibynnol a fu'n cyfrannu at y drafodaeth ynglŷn ag argaeledd y cyfleusterau pwysig iawn yma. Yn dilyn yr adolygiad, lluniodd y Gweithgor argymhellion ar gyfer monitro a gwella argaeledd y gwelyau ar gyfer yr aelodau yma o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

Mae'n bleser gen i gyhoeddi bod adroddiad a'r argymhellion ein Gweithgor Gwelyau Nyrsio i'r Henoed Bregus eu Meddwl wedi'u cyflwyno i'r Cabinet ar 19 Mawrth 2019, a chafodd pob argymhelliad ei gytuno mewn egwyddor.

- Bydd y Pwyllgor Craffu yn parhau i fonitro'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ac yn enwedig materion yn ymwneud ag argaeledd darparu cartrefi nyrsio i'r henoed bregus eu meddwl;
- Bydd y Cabinet yn sicrhau bod yr argymhellion yn Natganiad Sefyllfa Marchnad Cwm Taf yn cael eu cyflawni, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hanelu at y ddarpariaeth fwy arbenigol a'r angen am ragor o ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gofal cymhleth h.y. dementia a nyrsio dementia.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Gweithgor am ei holl waith caled, ynghyd â'r Swyddogion am gyfres o gyfarfodydd llawn gwybodaeth.

Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref

Fel Pwyllgor rydyn ni wedi derbyn llawer o wybodaeth ers tymor y gwanwyn 2017 ynglŷn â gwaith ar y cyd sydd wedi'i gynnal rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn datblygu'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref. Gan fod hyn yn gymaint o gam enfawr yn ei flaen i helpu pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl, roedden ni o'r farn y dylid monitro'r maes yma'n agos.

Rwy'n falch o adrodd bod y model gofal newydd yma yn gweithio'n dda iawn a bod y Gwasanaeth wedi'i gydnabod â chymeradwyaeth uchel gan Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2018. Yng Ngwobrau GIG Cymru 2018, cafodd y Gwasanaeth ei gydnabod am weithio'n effeithiol ar draws sefydliadau, gan ennill categori'r prosiect gorau. Ynghyd â'm cyd-Aelodau, hoffwn i longyfarch y Gwasanaeth am ei waith caled.

Cawson ni wybod yng Nghyfarfod y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles ym mis Chwefror 2019 am Gam 2 arfaethedig y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref (Cadw'n Iach Gartref Un Man Mynediad ac Ymateb Brys). Rydyn ni fel Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad yn dilyn cadarnhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Byddwn ni'n parhau i fonitro cynnydd y gwasanaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Adroddiad - Ymgynghoriad ar Ganolfannau Cymuned Oriau Dydd

Cawson ni gyfle i gymryd rhan yn yr Ymgynghoriad ar y Canolfannau Cymuned Oriau Dydd. Cydnabu'r Aelodau bod y Canolfannau Cymuned Oriau Dydd yn darparu cyfleusterau i drigolion dros 50 oed er mwyn cael pryd poeth bob diwrnod yn ystod yr wythnos a chymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Serch hynny, fel Pwyllgor, roedden ni hefyd yn cydnabod bod angen newid. Roedd bod yn rhan o'r broses ymgynghori yma yn caniatáu inni rannu ein barn.

Cytunon ni fod y gwasanaeth cyfredol ddim yn gynaliadwy, gan gydnabod bod angen gweithio ar y cyd gyda chymunedau a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn darparu gwasanaeth mwy integredig er budd trigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Bydd ein sylwadau yn llywio'r ymgynghoriad ffurfiol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Rydyn ni'n edrych ymlaen at dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r Canolfannau Cymuned newydd ynghyd a'r gwasanaethau newydd a chyffrous a fydd yn darparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd a chreu arbedion maint o ran costau staff ac adeiladau. Bydd gwneud defnydd gwell a mwy cost-effeithiol o'n hasedau cymunedol ac ail-fuddsoddi adnoddau mewn

adeiladau sy'n addas i bwrpas, yn galluogi gwasanaethau i fod yn gynaliadwy yn yr hir dymor.

Casgliad

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur i'r Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles, ond mae wedi bod yn un foddhaus hefyd. Rydyn ni wedi ymgymryd ag ystod o waith ymgynghori a chraffu ymlaen llaw, fel y mae'r adroddiad yma yn ei ddangos. Rydyn ni hefyd wedi mynd i'r afael â rhai o faterion pwysicaf y Cyngor sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

Rwy'n ddiolchgar dros ben i'm cyd-Aelodau am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad yn ystod y flwyddyn ac i Swyddogion gweithgar y Cyngor yma sydd wedi'n helpu i wneud cyfraniad mawr i'r gwaith craffu yn 2018/19.

PWYLLGOR CRAFFU – CYNNAL GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMUNEDAU A FFYNIANT



S. Bradwick - Cadeirydd T. Williams - Is-Gadeirydd




A. Chapman



M. Fidler Jones



A. S. Fox



E. George



D. Grehan



G. Hughes



W. Owen



D. Owen-Jones



S. Pickering



G. Stacey



E. Stephens



W. Treeby



M. Weaver

Cylch Gorchwyl

Y rôl trosolwg a chraffu mewn perthynas â chraffu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn ystyried meysydd sy'n cyfrannu at ffyniant a materion diogelwch yn y gymuned hefyd. Hwn yw Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig y Cyngor (yn unol ag Adran 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006).

Croesawon ni'r Cynghorydd A. S. Fox i'r Pwyllgor yn dilyn newidiadau i'r Cydbwysedd Gwleidyddol ym mis Tachwedd 2018 yn lle'r Cynghorydd M. Diamond.

Rwy'n teimlo unwaith eto ei bod hi wedi bod yn flwyddyn brysur, llawn amrywiaeth i'r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant – ond mae hi wedi bod yn gyfnod cynhyrchiol i'w fwynhau hefyd. Mae'n anodd dewis ychydig o feysydd yn unig sy'n deilwng o'u trafod yn fanwl yma oherwydd bod cymaint o ddarnau pwysig o waith wedi'u cwblhau, ond mae'r meysydd canlynol yn rhai lle mae modd mesur argymhellion a deilliannau yn ystod y Flwyddyn Gyngor nesaf.

Wardeiniaid Eira Gwirfoddol

Hoffwn i ddechrau gyda phwnc a gafodd ei gyfeirio aton ni o'r Cyngor Llawn ar 19 Medi 2018 yn rhan o [Rybudd o Gynnig](#) – 'Trafod Wardeiniaid Eira Gwirfoddol'. Daeth y Gweithgor a sefydlon ni i ystyried y mater yn fanwl i'r casgliad eu bod yn cytuno mewn egwyddor â'r syniad o wardeiniaid eira gwirfoddol; serch hynny, mewn gwirionedd, roedd nifer o faterion ehangach i'w hystyried, fel cynnal cofrestr o wardeiniaid y byddai angen eu hyfforddi a'u cefnogi. Cydnabuon ni fod angen i'r gwaith fynd rhagddo'n fuan fel bod modd cynnwys unrhyw benderfyniadau yn rhan o baratodau ehangach y Cyngor ar gyfer tywydd garw yn ystod y gaeaf.

Llunion ni bedwar argymhelliad, a chafodd pob un ei dderbyn gan y Cabinet. Arweiniodd un at ymgyrch ledled y sir o'r enw '**Mae'ch cymdogion eich angen chi**'. Ym marn y Gweithgor, roedd hyn yn ymgorffori ethos y wardeiniaid eira trwy annog cymunedau i weithio gyda'i gilydd trwy gyfnodau o dywydd garw yn ystod y gaeaf, ac i fagu rhagor o gydnerthedd cymdeithasol. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys cyngor ymarferol a defnyddio ynglŷn â hyrwyddo ysbryd gwirfoddoli yn ystod cyfnodau o eira trwm.

Roedd y Gweithgor hefyd: -

- Yn cydnabod bod cyfranogiad Aelodau Etholedig yn hanfodol wrth gysylltu â chymunedau lleol;
- Yn cytuno y dylid hyrwyddo llinell gymorth benodol i Aelodau Etholedig, y mae modd i'r holl Aelodau Etholedig gael gafael arni, i gael cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth gyfredol am y sefyllfa leol yn ystod cyfnodau o dywydd garw.
- Yn cefnogi'r Cyngor i brynu dwy aradr eira 4x4 a fyddai hefyd yn sicrhau ein bod wedi'n paratoi hyd yn oed yn well pan fydd yr eira nesaf.

Cafodd yr ymgyrch ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor ac ar dudalennau gwe pwrpasol y Pwyllgor Craffu i bob un o'n preswylwyr ei darllen a'i defnyddio yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor Craffu yma yn ymdrin â chylch gwaith mor eang ac felly mae'n hanfodol ein bod ni'n dewis pynciau'n ofalus a chynnwys rhai sy'n bwysig iawn i'n preswylwyr. Mae ailgylchu wedi bod yn flaenoriaeth yn ein Rhaglen Waith erioed, ers imi fod yn Gadeirydd y Pwyllgor yma. Mae'n bwnc y mae ein cymunedau'n ymateb yn emosiynol iddo, ond mae gan yr awdurdod lleol darged ailgylchu statudol i'w gyflawni (sef ailgylchu 70% erbyn 2024/25). Bydd y Cyngor yn derbyn dirwyon mawr ar gyfer pob canran y mae'n methu â chyflawni'r targed.

Ailgylchu mewn Ardaloedd Cymunedol

Yn gynnar ym mlwyddyn y Cyngor, derbynion ni gyflwyniad yn amlinellu'r cyfleoedd a'r heriau y mae'r carfanau ailgylchu yn eu hwynebu mewn ardaloedd casglu gwastraff cymunedol ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain yn ardaloedd dynodedig y cytunwyd arny'n nhw gan y Gwasanaethau Gwastraff lle mae meddianwyr sawl eiddo yn gadael eu gwastraff a'u deunydd ailgylchu. Penderfynon ni y byddai gwella trefniadau casglu gwastraff yn yr ardaloedd yma yn gallu cynyddu cyfraddau ailgylchu y Cyngor a chynyddu boddhad y gymuned (lle mae trigolion yn hapus gyda'r gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd rhagor o ymgysylltu a chyflawniad gwell o safbwynt cyfranogi). Canolbwyntion ni ein gwaith ar ddau faes, ailgylchu cymunedol o safbwynt landlordiaid cymdeithasol, a'r pwerau gorfodi sydd ar gael i'r Cyngor.

Er mwyn rhoi sylw dyledus i'r ddau faes yma, rhannon ni'r Gweithgor yn ddau is-grŵp er mwyn llunio strategaeth gwastraff hir dymor i'r holl feysydd sy'n peri pryder, gan gynnwys adolygiad o'r holl ardaloedd casglu gwastraff sy'n achosi problemau. Rydyn ni wedi cael ymateb cadarnhaol gan y Landlordiaid Tai Cymdeithasol sy'n gweithio'n agos gyda ni er mwyn cynyddu'r bwyd a'r gwastraff sy'n cael eu hailgylchu mewn ardaloedd cymunedol. Rwy'n falch o adrodd ein bod ni wedi cytuno i gynnal achlysur ymgysylltu gyda'n partneriaid a'n trigolion mewn ardal lle mae cyfranogiad yn isel. Byddwn ni'n mynd o ddrws i ddrws ac yn anfon llythyrau i hyrwyddo ailgylchu yn yr ardal ddynodedig a nodi a oes unrhyw rwystrau i ailgylchu'n effeithiol. Bydd yr achlysur hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddosbarthu biniau cewynnau a biniau gwastraff bwyd am ddim. Byddwn ni'n achub ar y cyfle i ymgysylltu â'n trigolion yn yr ardal i ofyn iddyn nhw sut mae modd inni hwyluso'u trefniadau ailgylchu fel bod modd inni sicrhau bod ein gwasanaethau yn eu boddhau.

Rydyn ni'n hefyd yn archwilio ffyrdd y gall ein Hadran Gynllunio weithio ar y cyd â Gwasanaethau Gwastraff wrth gynllunio datblygiadau yn y dyfodol fel bod ardaloedd ailgylchu cymunedol anodd eu cyrraedd yn haws eu cyrraedd i loriau gwastraff y Cyngor. Rydyn ni hefyd yn archwilio i ddarpariaeth yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer ardaloedd casglu gwastraff mewn ardaloedd cymunedol. Gallai'r newidiadau syml yma wella'n sylweddol y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli casglu gwastraff.

Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad yma, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi arfer gorau a darparu awgrymiadau ynglŷn â sut y mae modd i'r awdurdod lleol wella gweithredu cynlluniau ailgylchu o fewn ardaloedd cymunedol. Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod ni'n archwilio'r holl gyfleoedd i weithio gyda landlordiaid tai cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill. Bydd canlyniadau'r adolygiad yma yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2019/2020, a byddan nhw'n cael ei rhannu ar ein gwefan Craffu dynodedig.

Asesu effaith y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu

Ddechrau'r flwyddyn gwnaethon ni asesu effeithiolrwydd Pwyllgor Cynllunio a Datblygu'r Cyngor gan ei fod wedi bod yn flynyddoedd lawer ers i ni ymgymryd â gwaith sylweddol yn y maes yma. Yn ystod 2014/15, o ganlyniad i adolygiad Craffu, penderfynwyd newid y Pwyllgor Cynllunio o un yr oedd pob un o'r 75 Aelod Etholedig yn aelod ohono, i'r pwyllgor llai sydd gyda ni heddiw. Ymysg meysydd eraill a oedd yn peri pryder oedd nifer yr argymhellion gan swyddogion a oedd yn cael eu gwrthod gan Aelodau Etholedig, hawliau siaradwyr, gweithdrefnau pleidleisio a phrofiad y cyhoedd.

Cafodd trafodaeth helaeth ei chynnal gyda swyddogion allweddol. Penderfynwyd rhoi'r argymhellion canlynol ar waith:

- Rhoi hyfforddiant priodol i holl Aelodau'r Cyngor er mwyn hwyluso'u dealltwriaeth o'r broses gynllunio;

- Tracio cynnydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu trwy Adroddiad Blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant;
- Adolygu'r 'Cod Ymarfer Da', a'i ddiwygio, lle y bo'n briodol; a
- Gwahodd Cyfarwyddwr Arolygiaeth Gynllunio Cymru i gyfarfod y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol.

Rwy'n falch iawn o adrodd bod y canlynol wedi digwydd ers ein cyfarfod:

Cyflwynodd yr Arolygiaeth Gynllunio hyfforddiant ynglŷn â'i rôl i'r holl Aelodau Etholedig ar **24 Ionawr 2019**; cafodd hyfforddiant craffu ymlaen llaw ei roi i'r holl Aelodau Etholedig ar **18 Hydref 2018**; ac roedd hyfforddiant ynglŷn â'r fenter 'Siop Blotiau' ar **8 Tachwedd 2018** (mae'r Siop Blotiau yn fenter sy'n helpu gwerthu darnau o dir i'r rheini sy'n awyddus i adeiladu eu tai eu hun - boed iddyn nhw gychwyn o ddim neu drwy ddyluniad wedi'i addasu).

Byddwn ni'n gofyn i'r adroddiad blynyddol a gyfeiriwyd ato'n flaenorol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yma'r flwyddyn nesaf fel bod modd inni werthuso cynnydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a pharhau gyda'n ffocws ar y Cod Ymarfer Da er mwyn gweld a yw'r diwygiadau yn gweddu'r heriau sy'n ein hwynebu.

Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn

Y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant yw Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn dynodedig y Cyngor (o dan adrannau 19 ac 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006). Mae'n ofynnol iddo gynnal o leiaf un cyfarfod y flwyddyn, ond sylweddolais yn fuan pa mor bwysig yw'r pwyllgor yma, a gofynnais, felly, ein bod yn cynnal o leiaf dau gyfarfod y flwyddyn.

Mae'r penderfyniad hwnnw wedi bod yn un gwerthfawr oherwydd rydyn ni wedi gweld agendâu llawn yn y ddau gyfarfod eleni, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018 a mis Chwefror 2019. Dyma rai o'r pynciau y buon ni'n eu trafod:

- Edrychon ni ar ddau brosiect dylanwadol iawn, DIVERT a WISDOM. Mae DIVERT wedi atal aildroseddu trwy weithio gyda phobl rhwng 18 a 25 oed sy'n troseddu am y tro cyntaf. Ni wnaeth 96% o'r bobl a fu'n rhan o'r prosiect aildroseddu o fewn 6 mis o gymryd rhan.
- Buon ni'n gweithio'n agos gydag Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru wrth iddyn nhw ymgymryd ag adolygiad cenedlaethol o gynllun cyfarfodydd PACT – Partneriaethau a Chymunedau gyda'i Gilydd. Nodon ni feysydd a oedd angen eu hystyried ymhellach ac y dylid eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Byddwn ni'n dadansoddi deilliannau'r ymgynghoriad y flwyddyn nesaf.
- Rydyn ni wedi parhau i chwarae rhan yn natblygu Cynllun Cyflawni Cymunedau Diogel Cwm Taf 2018-2021. Nawr, rydyn ni'n parhau i adolygu statws y Cynllun a phob gweithred ddilynol er mwyn monitro cynnydd yn erbyn targedau coch, ambr a gwrydd; ac
- Archwilion ni sut mae'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel, sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, Heddlu De Cymru a nifer o asiantaethau eraill gan gynnwys Cymdeithasau Tai, yn mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, mewn ymgais ar y cyd i leihau troseddu. Gwelson ni fod yna ymrwymiad cryf rhwng yr holl bartneriaid yn Rhondda Cynon Taf i fynd i'r afael â'r rheini sy'n cyflawni Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn effeithiol a darparu cefnogaeth i'r rheini sy'n dioddef o ganlyniad i ymddygiad o'r fath.

Mae llawer o feysydd y byddwn ni'n parhau i'w monitro yn ystod y Flwyddyn Gyngor nesaf ac rwy'n edrych ymlaen at raglen waith heriol a boddhaus i'r Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn.

Casgliad

Fel Cadeirydd, rwy'n falch o ddweud bod y Pwyllgor Craffu yma yn parhau â'i uchelgais o fod yn rhagweithiol, gan ychwanegu gwerth trwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyd y Fwrdeistref Sirol.

I gloi, hoffwn i achub ar y cyfle i ddiolch i'm His-gadeirydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Tina Williams, am ei chefnogaeth, ac i holl aelodau'r Pwyllgor Craffu a'r swyddogion am eu hymrwymiad a'u cyfraniad pwysig dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn i sôn hefyd am y garfan Graffu sydd wedi fy nghefnogi i a'm Pwyllgor ar hyd y flwyddyn ddiwethaf.

PWYLLGOR CRAFFU - CYLLID A CHYFLAWNIAD



J. Williams - Cadeirydd **G. Thomas - Is-gadeirydd**



S. Bradwick



G. Caple



J. Cullwick



G. R. Davies



A. Davies-Jones



J. Elliott



A. S. Fox



G. Holmes



W. Lewis



M. Powell



S. Rees-Owen



T. Williams



R. Yeo

Cylch Gorchwyl

Mae'r Pwyllgor yma yn gyfrifol am graffu ar gyflawniad ariannol a gweithredol; trefniadau rheoli trysorlys; proses ymgynghori'r gyllideb refeniw blynyddol; gofynion adrodd ar gyflawniad statudol a monitro gweithredu penderfyniadau cynllunio ariannol tymor canolig.

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell oedd Cadeirydd y Pwyllgor o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 23 Mai 2018 hyd at gyfarfod y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2018, pan deuthum i i'r Gadair. Roedd hyn oherwydd bod grŵp y Gynghrair wedi colli ei hawl i Gadeirio Pwyllgor Craffu, ac enillodd grŵp Plaid Cymru'r hawl i Gadeirio Pwyllgor Craffu ychwanegol. Cymerodd y Cynghorydd A. S. Fox le'r Cynghorydd M. Diamond ar y Pwyllgor yn dilyn newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol.

Cyn cyflwyno meysydd gwaith allweddol y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018/19, hoffwn nodi fy niolch i Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell am ei gyfraniad allweddol i'r Rhaglen waith yn ystod pedwar cyfarfod cyntaf Blwyddyn y Cyngor 2018/19. Roedd yn briodol ei fod wedi parhau'n aelod o'r Pwyllgor, ac yntau'n gyfrannwr gwerthfawr at y gwaith Craffu. Rwy'n newydd yn y Gadair ond rwy'n aelod o'r Pwyllgorau Craffu – Cyllid a Chyflawniad ers Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2018. Roeddwn i wrth fy modd pan ofynnwyd imi Gadeirio'r Pwyllgor yma, gan fy mod i'n gwerthfawrogi pwysigrwydd monitro cyflawniad corfforaethol y Cyngor yn erbyn ei dargedau blynyddol, a'r swyddogaeth fonitro chwarterol.

Absenoldeb oherwydd salwch

Yn fuan iawn ar ddechrau'r flwyddyn, nodon ni eitem ychwanegol ar gyfer ein Rhaglen Waith, sef absenoldeb oherwydd salwch. Cafodd yr eitem ei gyfeirio i gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2018, pan adroddwyd bod £130,000 wedi'i neilltuo i gefnogi'r gwaith o liniaru effaith absenoldeb oherwydd salwch ar gyflawni gwasanaethau ar draws y Fwrdeistref Sirol, trwy fentrau fel sefydlu'r Garfan Rheoli Absenoldeb. Roedden ni'n awyddus i ddysgu rhagor am strategaeth y Cyngor. Nod y strategaeth yw helpu unigolion i aros yn y gwaith a nodi a rheoli salwch trwy ystod eang o becynnau cymorth.

Cwestiynon ni'r wybodaeth a dderbynion, ac roedd Aelodau am weld gweithredu pellach yn y meysydd canlynol:

- Roedd diffyg data cymharol mewn perthynas ag absenoldeb oherwydd salwch, er mwyn inni allu cymharu'r awdurdod hwn ag eraill yng Nghymru ac asesu lle mae angen cynnydd;
- Diffyg eglurder ynglŷn â'r ffactorau sy'n cyfrannu at gynnydd yng nghyfraddau absenoldeb oherwydd salwch meysydd gwasanaeth penodol; a
- Dadansoddiad o gost wirioneddol ac effaith ariannol lefelau salwch ar y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd dan sylw.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon a derbynion ni'r wybodaeth berthnasol a'n galluogodd i ddychwelyd at ein hymholiadau gwreiddiol, gan nodi deilliannau boddhaol a thystiolaeth o leihad yng nghyfraddau absenoldeb oherwydd salwch. Rydyn ni wedi ymrwymo i adolygu'r mater yma ymhellach yn ystod y Flwyddyn Gyngor nesaf, trwy Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol y Cyngor, yn ogystal ag adroddiadau penodol lle bo'n briodol i sicrhau bod popeth sy'n bosibl yn cael ei wneud i gefnogi'n gweithlu a chynnal lefelau is o absenoldeb oherwydd salwch.

Ardroddiadau ar Gyflawniad y Cyngor

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor yma, rydyn ni wedi craffu'n rheolaidd ar gynigion cyllideb a gwariant y Cyngor yn ogystal â chraffu ar gyflawniad y Cyngor bob chwarter. Mae'r adroddiadau chwarterol yma yn cynnwys llawer o wybodaeth fel refeniw chyflawniad cyllideb cyfalaf, gwybodaeth ynglŷn ag 'iechyd' y sefydliad gan gynnwys trosiant staff, salwch a risgiau strategol y Cyngor, cynllun gweithredu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a manylion unrhyw fesurau cenedlaethol neu osod targedau eraill. Gyda hyn mewn golwg, mae'n allweddol ein bod yn deall ac yn holi'r Swyddogion Cyllid er mwyn ymgymryd â'r adolygiad mwyaf trylwyr ac effeithiol posibl, a chodi cwestiynau ynglŷn ag elfennau o gyllideb a chyflawniad y Cyngor.

Yn unol â'n cylch gorchwyl, rydyn ni wedi ymgymryd â gwaith craffu ymlaen llaw mewn perthynas ag Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol drafft 2018/19 a Strategaeth Cyllid Refeniw 2019/20, gan wneud argymhellion i'r Cabinet. Nodon ni for yr uchelgeisiau sydd *wedi'u nodi yn yr Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar gyfer 2018/19 yn ddealladwy a byddan nhw'n galluogi cynnydd a chaniatáu mesur effaith a chraffu arni.*

Darparon ni adborth ar broses Ymgynghori ar y Gyllideb Refeniw flynyddol. Er mwyn bodloni'r gofyniad yma, bob blwyddyn rydyn ni'n derbyn trosolwg o'r sefyllfa o safbwynt y gyllideb bresennol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ar yr un pryd mae gofyn inni roi adborth ar nifer o feysydd yn rhan o'r broses ymgynghori. Cynhalion ni adolygiad manwl o ddangosyddion cyflawniad y Cyngor ar gyfer 2018/19 hefyd, er mwyn asesu a ydyn nhw'n debygol o gyflawni targedau. Nod y broses yw helpu'r Pwyllgor i gyflawni'i gyfrifoldeb a hefyd sicrhau bod gan yr Aelodau'r holl wybodaeth angenrheidiol wrth graffu ar gyflawniad y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Cofrestr Busnesau Bwyd yn RhCT

Cafodd [Rhybudd o Gynnig](#) a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 24 Hydref ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad mewn perthynas â chofrestr busnesau bwyd yn Rhondda Cynon Taf. Roedd y Rhybudd o Gynnig yn gofyn inni ystyried ffyrdd i annog a chefnogi'r holl gynhyrchwyr bwyd yn RhCT, a sut mae modd inni hyrwyddo marchnata a defnyddio cynnyrch lleol yn effeithiol.

Ers hynny, rydyn ni wedi sefydlu Gweithgor Craffu, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 3 Ebrill 2019 i gytuno ar y Cylch Gorchwyl ac ystyried i ba raddau y mae'r Gofrestr Busnesau Bwyd statudol gyfredol yn cefnogi'r economi leol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynnal ei gofrestr gyfredol o fusnesau bwyd. Mae'r cronfa ddata ar gael fel cofrestr gyhoeddus ac mae angen adnoddau sylweddol i gynnal dilysrwydd y gofrestr am ei bod hi'n llywio gwaith y Cyngor ym maes gofodi cyfraith fwyd.

Mae nifer o feysydd y byddwn ni'n eu hystyried, yn unol â chylch gorchwyl y Gweithgor, fel adolygu sut mae'r gofrestr fwyd yn cael ei darparu i fusnesau bwyd yn Rhondda Cynon Taf, ac rydyn ni'n bwriadu nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth i sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn gwneud ein gorau glas i fusnesau bwyd lleol. Bydd ein hargymhellion yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad ac yna i'r Adain Weithredol i'w hystyried, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gyflawni deilliannau cadarn a phendant. Bydd yr argymhellion yma yn cael eu hadrodd yn yr adroddiad blynyddol Trosolwg a Chraffu nesaf yn ystod y Flwyddyn Gyngor nesaf.

Rydyn ni'n parhau i ymateb i raglen waith craffu amrywiol y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad, er mwyn craffu'n drylwyr ar gynigion cyllideb y Cyngor. Weithiau dydy'r pynciau yma ddim gyda'r hawsaf i fynd i'r afael â nhw, a rhaid rhoi clod i Swyddogion Cyllid yr awdurdod am egluro'r materion yma lle bo angen.

Hoffwn ddiolch i'm His-gadeirydd, y Cynghorydd G. Thomas, sydd wedi bod yn gefn imi yn fy rôl newydd, a holl aelodau'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad sydd wedi cyfrannu at lawer o waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni'n edrych ymlaen at fonitro gweithgareddau yn y flwyddyn sydd i ddod.

